

# Withdrawn

**This publication has been  
withdrawn.**

This publication is no longer current and is not being updated. It is published here for reference only.



# Beth mae PIP yn ei olygu i awdurdodau lleol

Eglurhad byr o sut mae Taliad Annibyniaeth Personol (PIP) yn effeithio awdurdodau lleol. Gweler [gov.uk/dwp/pip-toolkit](http://gov.uk/dwp/pip-toolkit) am y fersiwn diweddaraf ac am wybodaeth arall i addasu eich canllawiau a chyfathrebiadau. Diweddarwyd y fersiwn hwn yn Rhagfyr 2018.

## Rhannu data

O'r 10 Mehefin 2013 mae'r Rhaglen Rhannu Data Awdurdod Lleol (LADS) wedi gweithredu Trosglwyddo Awtomatig i Systemau Awdurdod Lleol (ATLAS) ar gyfer data PIP. Fel gyda'r hysbysiad DLA ATLAS bydd yr un PIP yn hysbysu'n uniongyrchol i systemau budd-dal awdurdod lleol. Mae rhagor o fanylion am newidiadau ATLAS ar gael trwy gyfrwng [Huddle LA Data Share workspace](#) (dylech [gysylltu â LA-ST](#) i gofrestru a chael mynediad) - lawr lwythwch y pecyn Ymwybyddiaeth ATLAS.

## Sut mae budd-daliadau a gwasanaethau eraill yn cael eu heffeithio?

Mae cael DLA yn ddiffiniad cyffredin derbyniol ac eang o anabledd a ddefnyddir gan fudd-daliadau a chynlluniau eraill fel ffordd i adnabod pobl sydd angen cymorth ychwanegol. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod bod y trefniadau hyn yn bwysig i bobl anabl, eu gofalwyr ac wrth reoli gwasanaethau o fewn adrannau eraill y llywodraeth.

Mae'r Llywodraeth wedi ymrwmo y bydd PIP, fel yr hyn sy'n disodli DLA, yn parhau i fod yn brif ffordd o gael ('pasbort' i) fudd-daliadau a gwasanaethau anabledd eraill ar draws DWP ac adrannau eraill y llywodraeth lle bo hynny'n bosib.

Bydd hawlwr yn derbyn llythyr dyfarnu PIP fel prawf o'u hawl a all arwain at hawl i rai budd-daliadau a chynlluniau eraill.

Mae DWP yn defnyddio hysbysiadau ATLAS i anfon data dyfarniad y cwsmer PIP yn uniongyrchol i Awdurdodau Lleol i alluogi dyfarniadau cyflym a chywir o Fudd-dal Tai neu Ostyngiadau Treth Cyngor Lleol (neu'r ddau).

Mewn rhai achosion, mae DWP yn rhannu gwybodaeth am ddyfarniadau PIP o fewn yr adran a chydag adrannau eraill y llywodraeth i alluogi hawlwr i gael mynediad i gymorth perthnasol arall.

Nid oes unrhyw newidiadau i'r trefniadau pasbort ar gyfer pobl sy'n parhau i fod yn cael DLA. Mae'r holl drefniadau wedi'u rhestru yn y [llyfryn PIP](#).

## Sut mae trefniadau pasbort yn gweithio?

Mae bron pob trefniant pasbort o dan DLA yn parhau o dan PIP.

Yn y rhan fwyaf o achosion, mae pasbort yn DLA wedi cael eu cynnal yn PIP fel y dangosir isod. Er enghraifft os oedd cael y gyfradd ganol neu uchaf o'r elfen ofal o DLA yn gweithredu fel y pasbort i fudd-dal penodol o dan DLA, byddai'r cael unrhyw elfen bywyd bob dydd yn basbort cyfatebol o dan PIP.



## Bathodynau Glas

Fel gyda DLA, gall cael PIP ddarparu ffordd o gael help arall, megis Bathodynau Glas neu docynnau teithio consesiynol heb asesiad pellach.

Mae'r Adran Drafnidiaeth (DfT) a Llywodraethau Cymru a'r Alban wedi ymgymryd ag ymgynghoriadau ar gyfer rhai o'r cynlluniau hyn:

- Yn Lloegr, ymgynghorodd y DfT ar y Bathodyn Glas rhwng mis Gorffennaf a mis Hydref 2012. Ar 25 Ionawr cyhoeddodd gysylltiad mewn cyfraith rhwng hawl awtomatig i Fathodyn Glas a sgôr o wyth pwynt neu fwy ar y gweithgaredd 'Symud o Gwmpas'. Gelwir hyn yn gategori 'heb asesiad pellach'. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan [Blue Badge Scheme England](#).
- Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar y newidiadau i'r Bathodyn Glas a PIP o fis Awst i fis Hydref 2012. Ar 12 Rhagfyr cyhoeddwyd y byddent yn sefydlu cyswllt mewn cyfraith rhwng hawl awtomatig i Fathodyn Glas a sgôr o wyth pwynt neu fwy ar y gweithgaredd 'Symud o Gwmpas', neu 12 pwynt ar y gweithgaredd 'Cynllunio a dilyn taith'. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan [cynllun Bathodyn Glas Cymru](#).
- Ymgynghorodd Llywodraeth Yr Alban o fis Mehefin i fis Medi 2012 ar newidiadau i fudd-daliadau pasbort yr Alban o ganlyniad i gyflwyno Credyd Cynhwysol a PIP, yn cynnwys y Bathodyn Glas. Ar 25 Chwefror 2013 maent wedi gosod rheolaethau i sefydlu'r un cyswllt a Llywodraeth Cymru. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan [Blue Badge Scheme Scotland](#).

Beth mae PIP yn ei olygu i awdurdodau lleol

Gall awdurdodau lleol hefyd gyhoeddi'r Bathodyn Glas, yn amodol ar ganllawiau anstatudol ac asesiad pellach. Gelwir hyn yn gategori 'gydag asesiad pellach'.

## Teithio consesiynol

Yn Lloegr, lle mae teithio consesiynol yn amodol ar ganllawiau anstatudol, mae'r Adran Drafnidiaeth wedi cyhoeddi y bydd yn cynghori y gall ymgeiswyr gael eu hystyried yn gymwys i gael tocyn teithio consesiynol heb asesiad pellach os ydynt yn sgorio wyth neu fwy o bwyntiau ar naill ai gweithgaredd 'Symud o gwmpas' neu weithgaredd 'Cyfathrebu ar lafar'. Yn yr Alban bydd unrhyw dderbynydd o PIP yn cael hawl i gael tocyn bws person anabl heb asesiad pellach. Yng Nghymru, gall hawlwr sy'n sgorio wyth neu fwy o bwyntiau ar y disgrifydd Symudedd 'Symud o gwmpas' gael eu hystyried yn gymwys i gael tocyn teithio consesiynol heb asesiad pellach.

## Treth Cyngor

Mae'r Mesur Cyllid Llywodraeth Leol a gyflwynwyd ar 19 Rhagfyr 2011 yn paratoi'r ffordd ar gyfer gweithredu cynlluniau cymorth lleol Treth Cyngor yn Lloegr o fis Ebrill 2013.

Mae'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol (DCLG), Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth Cymru wedi gwneud rheoliadau ar wahân ond tebyg ar gynlluniau gostwng treth cyngor.

Ar gyfer hawlwr o oedran pensiwn a hawlwr o oedran gweithio yng Nghymru a Lloegr lle mae awdurdodau lleol yn defnyddio'r cynllun diodyn, mae awdurdodau lleol yn cynnig gostyngiadau sy'n cyfateb â'r cynlluniau Gostyngiad Treth Cyngor Lleol presennol, gan gynnwys dyfarniadau sy'n gysylltiedig â chael DLA a PIP. Yn yr Alban bydd yr holl hawlwr yn cael gostyngiadau sy'n cyfateb â'r cynlluniau Gostyngiad Treth Cyngor Lleol presennol. Ar gyfer hawlwr o oedran gweithio yng Nghymru a Lloegr, mae awdurdodau lleol yn rhydd i osod gostyngiadau treth cyngor sydd ddim yn gysylltiedig â DLA neu PIP.

Mae anwybyddiadau disgownt treth cyngor yn berthnasol i bobl â nam difrifol ar y meddwl. Yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, mae cael yr elfen Bywyd Bob Dydd o PIP ar unrhyw gyfradd yn ffurfio rhan o'r cymhwyster ar gyfer yr anwybyddiad.

Mae gofalwr sy'n darparu gofal byw i mewn yn cael ei ddiystyru at ddibenion treth cyngor yn Lloegr os yw'r person sy'n derbyn gofal yn cael yr elfen bywyd bob dydd o PIP ar unrhyw gyfradd, yn amodol ar feini prawf cymhwyso eraill. Yn yr Alban, mae'n rhaid i'r person sy'n derbyn gofal fod yn cael y gyfradd uwch o'r elfen bywyd bob dydd o PIP er mwyn i'r gofalwr gael ei ddiystyru. Yng Nghymru, os yw'r person sy'n derbyn gofal yn cael yr elfen bywyd bob

Beth mae PIP yn ei olygu i awdurdodau lleol

dydd o PIP ar unrhyw gyfradd, gall y gofalwr gael ei ddiystyru at ddibenion treth cyngor.

## Eithrio o'r cap ar fudd-daliadau

Fel gyda DLA a Lwfans Gweini (AA), mae cartrefi yn cael ei heithrio o'r cap ar fudd-daliadau (<https://www.gov.uk/cap-ar-fudd-daliadau>) lle mae gan hawlydd (o unrhyw fudd-daliadau sy'n destun i'r cap), partner neu berson ifanc sy'n gymwys, hawl i PIP.

Mae person ifanc sy'n gymwys yn rhywun y mae'r hawlydd neu bartner yn derbyn budd-dal plant [oherwydd eu bod mewn addysg lawn-amser nad yw'n addysg uwch yn yr ysgol neu'r coleg, neu'n ddechrau cwrs hyfforddiant 'cymeradwy'].

Nid yw oedolion nad ydynt yn ddibynnol sy'n cael PIP sy'n byw yn y cartref yn eithrio'r cartref oddi wrth y cap ar fudd-daliadau. Maent yn cael eu hystyried yn gartref eu hunain.

## Budd-dal Tai

Mae unrhyw elfen neu gyfradd o PIP yn golygu bydd gan hawlwr hawl i gael y premiwm anabledd. Mae'r gyfradd safonol neu uwch o'r elfen bywyd bob dydd yn rhoi hawl i hawlwr cael premiwm anabledd difrifol. Mae'r gyfradd uwch o'r elfen bywyd bob dydd yn rhoi hawl i gael y premiwm anabledd uwch.

## Taliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog (AFIP)

Mae'r Weinyddiaeth Amddiffyn (MoD) wedi cyflwyno Taliad Annibyniaeth y Lluoedd Arfog (AFIP), budd-dal newydd a fydd yn darparu cymorth ariannol i aelodau a chyn aelodau'r Lluoedd arfog sydd wedi'i hanafu.

Bydd y budd-dal yn symleiddio'r cymorth ariannol ar gyfer aelodau o'r Lluoedd Arfog sydd wedi cael eu hanafu'n ddifrifol o ganlyniad i'w gwasanaeth ers cyflwyno Cynllun lawndal y Lluoedd Arfog (AFCS) yn 2005 ac yn y dyfodol.

Bydd hawlwr AFIP derbyn budd-dal cyfradd unffurf sydd, at ddibenion pasbort yn cyfateb i'r cyfraddau uwch o elfennau bywyd bob dydd a symudedd PIP.

Ni fydd hawlwr sy'n dewis gwneud cais am AFIP yn gymwys i gael PIP, DLA neu Lwfans Gweini (AA). Bydd hawlwr sy'n dewis peidio â gwneud cais am AFIP cael ei drin fel hawlydd PIP neu AA yn y ffordd arferol.

## Canllaw a chymorth

Mae DWP yn cyhoeddi [Cylchlythyrau Budd-dal Tai a Budd-dal Treth Cyngor](#) sy'n rhoi arweiniad ar sut mae PIP yn effeithio ar brosesau ALL.

Beth mae PIP yn ei olygu i awdurdodau lleol

Mae rhagor o fanylion am newidiadau ATLAS ar gael trwy gyfrwng [Huddle LA Data Share workspace](#) (dylech [gysylltu â LA-ST](#) i gofrestru a chael mynediad) - lawr lwythwch y pecyn Ymwybyddiaeth ATLAS.

Mae DWP wedi cynhyrchu pecyn cymorth uwchsgilio PIP cynhwysfawr ar gyfer mudiadau a allai ddod i gysylltiad â phobl sy'n hawlio PIP neu yn cael eu hailasesu ar gyfer PIP.

Mae'r pecyn cymorth hwn ar gael ar-lein yn [gov.uk/dwp/pip-toolkit](http://gov.uk/dwp/pip-toolkit). Efallai gall eich [Rheolwr Partner Adran Gwaith a Phensiynau](#) hefyd eich helpu.

## Lle i gael mwy o wybodaeth

Mae gwybodaeth ar gyfer hawlwr yn [www.gov.uk/pip](http://www.gov.uk/pip). Efallai byddwch am gysylltu â'r dudalen hon o'ch safleoedd eich hun.

Buasem yn croesawu eich adborth ar y canllaw hwn a sut gallwn wneud yn siŵr bod y wybodaeth rydych ei hangen gennych – e-bostiwch [pip.feedback@dwp.gsi.gov.uk](mailto:pip.feedback@dwp.gsi.gov.uk).

## Ffeithiau allweddol

- Bydd PIP yn berthnasol i bob hawlydd newydd rhwng 16 a 64 oed (16 i'r diwrnod cyn oedran Pensiwn y Wladwriaeth o 6 Rhagfyr 2018 ymlaen) a hawlwr DLA presennol sydd yn 16 i 64 oed ar 8 Ebrill 2013 neu'n cyrraedd 16 oed ar ôl y dyddiad hwnnw.
- Mae PIP yn cael ei gyflwyno fesul camau dros nifer o flynyddoedd.
- O 28 Hydref 2013, bydd DWP yn gwahodd rhai pobl sy'n byw yng Nghymru, Gorllewin Canolbarth Lloegr, Dwyrain Canolbarth Lloegr neu East Anglia i wneud cais am PIP.
- Gofynnir i hawlwr DLA presennol i wneud cais am PIP ar ryw bwynt o fis Hydref 2013 ymlaen, ond ni chaiff y mwyafrif eu heffeithio cyn mis Hydref 2015.
- Mae cael DLA yn ddiffiniad cyffredin derbyniol ac eang o anabledd a ddefnyddir gan fudd-daliadau a chynlluniau eraill fel ffordd i adnabod pobl sydd angen cymorth ychwanegol.
- Fel DLA, PIP fydd y brif ffordd o gael pasbort i fudd-daliadau anabledd a gwasanaethau eraill ar draws DWP ac adrannau eraill y llywodraeth.
- Bydd hawlwr yn derbyn llythyr dyfarnu PIP fel prawf o'u hawl.
- Mae bron pob trefniant pasbort o dan DLA yn parhau o dan PIP.
- O 10 Mehefin 2013 mae'r Rhaglen Rhannu Data Awdurdod Lleol (LADS) wedi gweithredu hysbysu Trosglwyddo Awtomatig i Systemau Awdurdod Lleol (ATLAS).
- Fel gyda'r hysbysiad DLA ATLAS bydd yr un PIP yn hysbysu'n uniongyrchol i systemau budd-dal awdurdod lleol.
- Mae manylion am newidiadau ATLAS yn cael ei ddarparu trwy gyfrwng y pecyn Ymwybyddiaeth ATLAS a gyhoeddwyd ar Huddle i awdurdodau lleol gael ei weld.
- Mae DWP yn cyhoeddi [Cylchlythyr Budd-dal Tai a Budd-dal Treth Cyngor](#) sy'n rhoi arweiniad ar sut mae PIP yn effeithio ar brosesau ALI.